

## PECOCK, REGINALD (c. 1390 - c. 1461), esgob Llanelwy a Chichester

**Enw:** Reginald Pecock

**Dyddiad geni:** c. 1390

**Dyddiad marw:** 1461

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** esgob Llanelwy a Chichester

**Maes gweithgaredd:** Crefydd

**Awdur:** Ivor John Sanders

Y mae'n bosib ei fod o dras Cymreig. Dywed traddodiad mai un o Dalacharn, Sir Gaerfyrddin, ydoedd; er nad oes yr un dystiolaeth bendant o blaid hyn, gwyddys fod rhai yn dwyn yr enw Pecock yn y dref honno yn y Canol Oesoedd. Priododd rhyw Jenkyn le Whitt, Dinbych-y-pysgod, a fu farw yn 1461, ag Elen, aeres Jenkyn Pecoc, Talacharn a Dinbych-y-pysgod - ac effallai i Reginald Pecock ddeillio o'r teulu hwn, serch bod yr arfbais a briodolir i'r esgob yn wahanol i honno a ddygid gan Elen Pecoc. Gelwir ef yn 'presbyter dioecesis Menevensis,' eithr nad ydw hyn na'r ffaitt iddo gael ei ddewis i esgobaeth Gymreig yn profi tras Gymreig; nid oes, ychwaith, unrhyw ôl Cymraeg yn y math o Saesneg a ysgrifennai ef. Yr oedd Pecock yn ddoethur mewn diwinyddiaeth yn Rhydychen, ac yn gymrawd o Goleg Oriel yn y brifysgol honno, 1414-25; cafodd ei ordeinio, 1420-1; bu'n rheithor S. Michael Royal ac yn bennaeth Whittington College, Llundain, 1431-4; yn esgob Llanelwy, 1444-50; ac yn esgob Chichester, 1450-8. Tua 1455, ymddangosodd ei waith mwyaf adnabyddus, *A Repressor of Over Much Blaming of the Clergy*, ateb i ymosodiadau'r Lolardiaid ar yr Eglwys. Ond mewn gweithiau eraill am y rhain, gweler ysgrif arno yn y D.N.B. - amlygodd olygiadau a ystyrid yn anuniongred, a gwysiwyd ef o flaen Ilys archesgob Caergaint. Safodd ei brawf am heresi ar 28 Tachwedd 1457, tynnodd ei eiriau yn ôl ar 3 Rhagfyr; darllwyd ei ddatgyffesiad, a llosgywyd ei lyfrau gerllaw Paul's Cross ar 4 Rhagfyr; wedi hynny anfonwyd ef i Caergaint a Maidstone o dan ryw fath o ofalaeth - mewn enw. Wedi mis Awst 1458 anfonwyd ef i abaty Thorney, sir Caergrawnt; ymddengys iddo farw yno c. 1461. Ni wyddys fan ei fedd.

### Awdur

Ivor John Sanders, (1911 - 1991)

### Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*

*Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches between the years 1586 and 1613, under the authority of Clarenceux and Norroy, two kings at arms* (Llandovery 1846)

E. Laws a E. H. Edwards, *Church book of St. Mary the Virgin, Tenby* (Tenby 1907)

W. K. R. Bedford, *The Blazon of Episcopacy being the arms borne by or attributed to the archbishops and bishops of England and Wales with an ordinary of the coats described and of other episcopal arms* (1858, 1897)

V. H. H. Green, *Bishop Reginald Pecock a study in ecclesiastical history and thought* (Rhydychen 1945)

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: [44413993](#)

Wikidata: [Q7308836](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Sanders, I. J., (1953). PECOCK, REGINALD (c. 1390 - c. 1461), esgob Llanelwy a Chichester. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-PECO-REG-1390>



LLGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Nosbarwr  
Llyfrgell Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government